

Gwobrau Etsy Amodau a Thelerau

Ystyrir bod ymgeiswyr wedi derbyn yr Amodau a'r Thelerau hyn a'u bod wedi cytuno i ymrwymo wrthynt wrth ymgeisio ar gyfer y Gystadleuaeth hon.

HYRWYDDWR: Etsy UK Limited, Quadrant House, Floor 6, 4 Thomas More Square, Llundain, E1W 1YW

Y prif feirniaid fydd -

Patricia Van den Akker, Cyfarwyddwraig yr Ymddiriedolaeth Ddylunio

Anna Rigby, Pennaeth Prynu, Nwyddau Cartref John Lewis

Erica Davies, Blogiwr The Edited.

Pip McCormac, Cyfarwyddwraig Ffordd o Fyw Red Magazine

Yn ogystal, mae Etsy'n gweithio gyda chyrrff creadigol o bob rhan o'r DU ac Iwerddon (a bydd llawer o'r rhain yn cyfrannu'n garedig at ddewis enillwyr y gwobrau rhanbarthol). Mae'r rhain yn cynnwys: Gŵyl Ddylunio Llundain, Tent London, Y Cyngor Crefftiau, Yr Ymddiriedolaeth Ddylunio, Crefftiau Cymhwysol Cyfoes, Craft Central, Crafty Fox Market, Craft Scotland, Creative Scotland, Emergents, Xpo North, Cyngor Celfyddydau Cymru, Helfa Gelf, Craft NI, Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, Offset, a llawer iawn mwy a enwir ar flog Etsy UK. <https://blog.etsy.com/uk/2016/02/23/etsy-awards/>

WELSH TRANSLATION OF THIS DOCUMENT CAN BE DOWNLOADED AT:

<https://blog.etsy.com/uk/2016/02/23/etsy-awards/>

Pwy gaiff ymgeisio

1. Mae'r Gystadleuaeth hon yn agored i holl drigolion y DU ac Iwerddon sydd dros 18 oed ac sydd â rhestrriad byw mewn siop Etsy adeg cyflwyno'r cais. Er mwyn rhestru cynnyrch ar Etsy, bydd angen i'r ymgeiswyr ddilyn y dolenni i agor Siop Etsy ar-lein yn <https://www.etsy.com/uk/sell>. Caiff gwerthwyr newydd 20 o restrriadau am ddim trwy ddefnyddio'r cod ETSYAWARDSUKIRELAND yma. Mae defnydd o wefan Etsy a chyfranogaeth yn y Gystadleuaeth hon yn amodol ar gydymffurfiaeth â'r amodau defnydd a bennir yn <https://www.etsy.com/uk/>.
2. Ni chaiff cyflogeion, na neb sy'n perthyn yn agos i gyflogeion yr Hyrwyddwr, John Lewis Partnership, Red Magazine nac asiantaethau a chwmnïau, contractwyr neu unigolion cysylltiedig, ymgeisio ar gyfer y Gystadleuaeth hon. Dim mwy nag un ymgais y person. Bydd cyflwyniadau niferus neu ddyblyg gan yr un person yn annyls.

Sut i ymgeisio

6. I gymryd rhan yn y Gystadleuaeth hon, rhaid llenwi'r ffurflen gais ar www.etsydesignawards.com/uk yn ystod Cyfnod yr Ymgyrch (a ddiffinnir isod). Bydd angen i chi ddarparu'r holl wybodaeth a geisir, a chaiff ffurflenni anghyflawn eu hanghymwysu.
7. Yr "ymgeisydd" yw'r person a enwir ar y ffurflen gais – enw un unigolyn yn unig gaiff ymddangos ar y ffurflen gais fel ymgeisydd. Rhaid i chi nodi eich enw fel y mae'n ymddangos ar eich cyfrif banc fel y gallwch dalu'r siec a gewch am unrhyw wobwr arian parod i mewn i'r banc.
8. Wrth lenwi eich cais, dylech nodi pa Wobr(au) sydd gennych mewn golwg, gan ddilyn arweiniad y cwestiynau ar y ffurflen gais. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gymwys ar gyfer y Categoriâu o'r Gwobrau rydych chi'n ymgeisio amdanynt trwy gyfeirio at y Meini Prawf Cymhwyster, am y byddwn yn diystyru unrhyw geisiadau nad ydynt yn gymwys.
9. Os ystyrir eich bod yn gymwys (yn unol â'r Meini Prawf cymhwyster a restrir yn Rheol 12), cewch eich cyflwyno'n awtomatig am y gwobrau Dawn Newydd Etsy, Seren Adwerthu a'ch gwobr Rhanbarthol.
10. Rhaid i'ch cais gydymffurfio â'r telerau Gwarant a Defnydd yng nghymal 18.

Cyfnod yr Ymgyrch

11. Bydd y Gystadleuaeth yn agor ar 4 Ebrill 2016 ac yn cau am 11.59pm (amser y DU) ar 28 Ebrill 2016 ('Cyfnod yr Ymgyrch')

Yr Enillwyr a Chategoriâu'r Gwobrau

12. Ar 20 Mehefin 2016, neu cyn hynny, bydd y beirniaid yn dewis yr enillwyr o blith yr holl geisiadau cyflawn, cywir a chymwys sy'n dod i law. Yr enillwyr fydd yr ymgeiswyr y mae eu ceisiadau'n dangos y safonau uchaf o ran crefftwaith, proffesiynoliaeth a "ffactor waw". Rhoddir yr un pwysau ar yr holl feini prawf.

GWOBR	ENILLWYR	MEINI PRAWF CYMHWYSTER
Dawn Newydd Etsy (mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Ddylunio)	3 enillydd: Aur, Arian ac Efydd	<ul style="list-style-type: none">• Mae eitemau'r enillwyr yn dangos dyluniad a chrefftwaith unigryw o'r safon uchaf.• Rhaid i chi fod â siop Etsy gweithredol, a agorwyd yn 2016.• Rhaid i'ch siop a'ch eitemau gydymffurfio â Chanllawiau Etsy a Chanllawiau Gwerthwyr Etsy.• Rhaid i'ch siop gynnwys tudalen Amdanoch Chi.• Rhaid i chi gyflwyno'ch cais gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein erbyn canol nos, nos Iau, 28 Ebrill 2016.• Rhaid i chi fod ag eitemau wedi eu rhestru yn eich siop o'r dyddiad ymgeisio hyd 31 Hydref 2016.• Rhaid i'ch siop fod yn weithredol o'r amser pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch cais tan ddiwedd ymgyrch Gwobrau Etsy ar 31 Hydref 2016.• Rhaid i chi fod yn byw ac yn gweithio yn y DU neu Iwerddon.• Rhaid i chi fod yn gallu cyflwyno 1-3 o nwyddau dethol ar gyfer sioe Enillwyr Gwobrau Etsy yn Tent London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain, a hynny erbyn 1 Medi 2016. Etsy fydd yn dewis y cynnyrch, yn curadu ac yn rheoli'r arddangosfa o'ch gwaith. Nid oes rhaid i'r gwerthwyr fod yn bresennol yn bersonol. Rhaid i'r gwerthwyr fod â stoc o'r nwyddau dethol wedi eu rhestru yn ei siop Etsy.• Mae rhagor o wybodaeth yma: https://blog.etsy.com/uk/2016/02/23/etsy-awards/
Seren Adwerthu (mewn partneriaeth â John Lewis)	3 enillydd: Aur, Arian ac Efydd	<ul style="list-style-type: none">• Mae eitemau'r enillwyr yn dangos dyluniad a chrefftwaith unigryw o'r safon uchaf.• Rhaid i chi fod â siop Etsy gweithredol.• Ynghyd â'r meini prawf penodol eraill, rhaid i chi fod yn fodlon cyfanwerthu eich cynnyrch (am o leiaf 50% o'ch pris adwerthu).• Rhaid i'ch siop a'ch eitemau gydymffurfio â Chanllawiau Etsy a Chanllawiau Gwerthwyr Etsy.• Rhaid i'ch siop gynnwys tudalen Amdanoch Chi.

		<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i chi gyflwyno'ch cais gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein erbyn canol nos, nos lau, 28 Ebrill 2016. • Rhaid i chi fod ag eitemau wedi eu rhestru yn eich siop o'r dyddiad ymgeisio hyd 31 Hydref 2016. • Rhaid i'ch siop fod yn weithredol o'r amser pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch cais tan ddiwedd ymgyrch Gwobrau Etsy ar 31 Hydref 2016. • Rhaid i chi fod yn byw ac yn gweithio yn y DU neu Iwerddon. • Rhaid i chi fod yn gallu cyflwyno 1-3 o nwyddau dethol ar gyfer sioe Enillwyr Gwobrau Etsy yn Tent London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain, a hynny erbyn 1 Medi 2016. Etsy fydd yn dewis y cynnyrch, yn curadu ac yn rheoli'r arddangosfa o'ch gwaith. Nid oes rhaid i'r gwerthwyr fod yn bresennol yn bersonol. Rhaid i'r gwerthwyr fod â stoc o'r nwyddau dethol wedi eu rhestru yn ei siop Etsy. • Mae rhagor o wybodaeth yma: https://blog.etsy.com/uk/2016/02/23/etsy-awards/
Y Cartref a Byw	3 enillydd: Aur, Arian ac Efydd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae eitemau'r enillwyr yn dangos dyluniad a chreffftwaith unigryw o'r safon uchaf. • Rhaid i'r eitemau a gyflwynir fod wedi eu rhestru yn adrannau categori Y Cartref a Byw, Bath a Harddwch, Offer Electroneg ac Ategolion, Llyfrau, Ffilmiau a Cherddoriaeth, Nwyddau Anifeiliaid Anwes, Teganau a Gemau, Priodasau neu 'Vintage' ar Etsy.com • Rhaid i chi fod â siop Etsy gweithredol. • Rhaid i'ch siop a'ch eitemau gydymffurfio â Chanllawiau Etsy a Chanllawiau Gwerthwyr Etsy. • Rhaid i'ch siop gynnwys tudalen Amdanoch Chi. • Rhaid i chi gyflwyno'ch cais gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein erbyn canol nos, nos lau, 28 Ebrill 2016. • Rhaid i chi fod ag eitemau wedi eu rhestru yn eich siop o'r dyddiad ymgeisio hyd 31 Hydref 2016. • Rhaid i'ch siop fod yn weithredol o'r amser pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch cais tan ddiwedd ymgyrch Gwobrau Etsy ar 31 Hydref 2016. • Rhaid i chi fod yn byw ac yn gweithio yn y DU neu Iwerddon. • Rhaid i chi fod yn gallu cyflwyno 1-3 o nwyddau dethol ar gyfer sioe Enillwyr Gwobrau Etsy yn Tent London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain, a hynny erbyn 1 Medi 2016. Etsy fydd yn dewis y cynnyrch, yn curadu ac yn rheoli'r arddangosfa o'ch gwaith. Nid oes rhaid i'r gwerthwyr fod yn bresennol yn bersonol. Rhaid i'r

		<p>gwerthwyr fod â stoc o'r nwyddau dethol wedi eu rhestru yn ei siop Etsy.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae rhagor o wybodaeth yma: https://blog.etsy.com/uk/2016/02/23/etsy-awards/
Ffasiwn a Chyfwisgoed	3 enillydd: Aur, Arian ac Efydd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae eitemau'r enillwyr yn dangos dyluniad a chreffftwaith unigryw o'r safon uchaf. • Rhaid i'r eitemau a gyflwynir fod wedi eu rhestru • Rhaid i chi fod â siop Etsy gweithredol. • Rhaid i'ch siop a'ch eitemau gydymffurfio â Chanllawiau Etsy a Chanllawiau Gwerthwyr Etsy. • Rhaid i'ch siop gynnwys tudalen Amdanoch Chi. • Rhaid i chi gyflwyno'ch cais gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein erbyn canol nos, nos Iau, 28 Ebrill 2016. • Rhaid i chi fod ag eitemau wedi eu rhestru yn eich siop o'r dyddiad ymgeisio hyd 31 Hydref 2016. • Rhaid i'ch siop fod yn weithredol o'r amser pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch cais tan ddiwedd ymgyrch Gwobrau Etsy ar 31 Hydref 2016. • Rhaid i chi fod yn byw ac yn gweithio yn y DU neu Iwerddon. • Rhaid i chi fod yn gallu cyflwyno 1-3 o nwyddau dethol ar gyfer sioe Enillwyr Gwobrau Etsy yn Tent London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain, a hynny erbyn 1 Medi 2016. Etsy fydd yn dewis y cynnyrch, yn curadu ac yn rheoli'r arddangosfa o'ch gwaith. Nid oes rhaid i'r gwerthwyr fod yn bresennol yn bersonol. Rhaid i'r gwerthwyr fod â stoc o'r nwyddau dethol wedi eu rhestru yn ei siop Etsy. • Mae rhagor o wybodaeth yma: https://blog.etsy.com/uk/2016/02/23/etsy-awards/
Plantos a Babanod	3 enillydd: Aur, Arian ac Efydd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae eitemau'r enillwyr yn dangos dyluniad a chreffftwaith unigryw o'r safon uchaf. • Rhaid i'ch eitemau fod wedi eu rhestru o dan y categorïau Plant a Babanod, Dillad, Y Cartref a Byw, Teganau a Gemau neu 'Vintage' ar Etsy.com • Rhaid i chi fod â siop Etsy gweithredol. • Rhaid i'ch siop a'ch eitemau gydymffurfio â Chanllawiau Etsy a Chanllawiau Gwerthwyr Etsy. • Rhaid i'ch siop gynnwys tudalen Amdanoch Chi. • Rhaid i chi gyflwyno'ch cais gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein erbyn canol nos, nos Iau, 28 Ebrill 2016. • Rhaid i chi fod ag eitemau wedi eu rhestru yn eich siop o'r dyddiad ymgeisio hyd 31 Hydref 2016.

		<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i'ch siop fod yn weithredol o'r amser pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch cais tan ddiwedd ymgyrch Gwobrau Etsy ar 31 Hydref 2016. • Rhaid i chi fod yn byw ac yn gweithio yn y DU neu Iwerddon. • Rhaid i chi fod yn gallu cyflwyno 1-3 o nwyddau dethol ar gyfer sioe Enillwyr Gwobrau Etsy yn Tent London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain, a hynny erbyn 1 Medi 2016. Etsy fydd yn dewis y cynnyrch, yn curadu ac yn rheoli'r arddangosfa o'ch gwaith. Nid oes rhaid i'r gwerthwyr fod yn bresennol yn bersonol. Rhaid i'r gwerthwyr fod â stoc o'r nwyddau dethol wedi eu rhestru yn ei siop Etsy. • Mae rhagor o wybodaeth yma: https://blog.etsy.com/uk/2016/02/23/etsy-awards/
Dewis y Bobl	1 enillydd:	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i chi gyrraedd y rownd derfynol ar gyfer un o'r Gwobrau canlynol: Dawn Newydd Etsy, Seren Adwerthu, Y Cartref a Byw, Ffasiwn a Chyfwisgoedd, Plant a Babanod, Dewis y Bobl. • Rhaid i chi ennill y bleidlais gyhoeddus trwy bleidlais ar Facebook. Bydd y bleidlais yn agor am 5pm ar 23 Mai ac yn cau am 5pm ar 6 Mehefin • Mae rhagor o wybodaeth yma: https://blog.etsy.com/uk/2016/02/23/etsy-awards/
Y Wobr Ranbarthol: Lloegr	1 enillydd:	<p>Rhaid i'r ymgeisydd fod yn byw yn Lloegr. Mae eitemau'r enillwyr yn dangos dyluniad a chreffftwaith unigryw o'r safon uchaf. Rhaid i chi fod â siop Etsy gweithredol. Rhaid i'ch siop a'ch eitemau gydymffurfio â Chanllawiau Etsy a Chanllawiau Gwerthwyr Etsy. Rhaid i'ch siop gynnwys tudalen Amdanoch Chi. Rhaid i chi gyflwyno'ch cais gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein erbyn canol nos, nos lau, 28 Ebrill 2016. Rhaid i chi fod ag eitemau wedi eu rhestru yn eich siop o'r dyddiad ymgeisio hyd 31 Hydref 2016. Rhaid i'ch siop fod yn weithredol o'r amser pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch cais tan ddiwedd ymgyrch Gwobrau Etsy ar 31 Hydref 2016. Rhaid i chi fod yn byw ac yn gweithio yn y DU neu Iwerddon. Rhaid i chi fod yn gallu cyflwyno 1-3 o nwyddau dethol ar gyfer sioe Enillwyr Gwobrau Etsy yn Tent London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain, a hynny erbyn 1 Medi 2016. Etsy fydd yn dewis y cynnyrch, yn curadu ac yn rheoli'r arddangosfa o'ch gwaith. Nid oes rhaid i'r gwerthwyr fod yn</p>

		<p>bresennol yn bersonol. Rhaid i'r gwerthwyr fod â stoc o'r nwyddau dethol wedi eu rhestru yn ei siop Etsy.</p> <p>Caiff pob ymgeisydd eu hystyried am y gwobrau Rhanbarthol yn awtomatig (gwneuthurwr gorau Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon).</p> <p>Mae rhagor o wybodaeth yma: https://blog.etsy.com/uk/2016/02/23/etsy-awards/</p>
Y Wobr Ranbarthol: Yr Alban	1 enillydd:	<p>Rhaid i'r ymgeisydd fod yn byw yn yr Alban.</p> <p>Mae eitemau'r enillwyr yn dangos dyluniad a chreffftwaith unigryw o'r safon uchaf.</p> <p>Rhaid i chi fod â siop Etsy gweithredol.</p> <p>Rhaid i'ch siop a'ch eitemau gydymffurfio â Chanllawiau Etsy a Chanllawiau Gwerthwyr Etsy.</p> <p>Rhaid i'ch siop gynnwys tudalen Amdanoch Chi.</p> <p>Rhaid i chi gyflwyno'ch cais gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein erbyn canol nos, nos Iau, 28 Ebrill 2016.</p> <p>Rhaid i chi fod ag eitemau wedi eu rhestru yn eich siop o'r dyddiad ymgeisio hyd 31 Hydref 2016.</p> <p>Rhaid i'ch siop fod yn weithredol o'r amser pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch cais tan ddiwedd ymgyrch Gwobrau Etsy ar 31 Hydref 2016.</p> <p>Rhaid i chi fod yn byw ac yn gweithio yn y DU neu Iwerddon.</p> <p>Rhaid i chi fod yn gallu cyflwyno 1-3 o nwyddau dethol ar gyfer sioe Enillwyr Gwobrau Etsy yn Tent London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain, a hynny erbyn 1 Medi 2016. Etsy fydd yn dewis y cynnyrch, yn curadu ac yn rheoli'r arddangosfa o'ch gwaith. Nid oes rhaid i'r gwerthwyr fod yn bresennol yn bersonol. Rhaid i'r gwerthwyr fod â stoc o'r nwyddau dethol wedi eu rhestru yn ei siop Etsy.</p> <p>Caiff pob ymgeisydd eu hystyried am y gwobrau Rhanbarthol yn awtomatig (gwneuthurwr gorau Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon).</p> <p>Mae rhagor o wybodaeth yma: https://blog.etsy.com/uk/2016/02/23/etsy-awards/</p>
Y Wobr Ranbarthol: Cymru	1 enillydd:	<p>Rhaid i'r ymgeisydd fod yn byw yng Nghymru.</p> <p>Mae eitemau'r enillwyr yn dangos dyluniad a chreffftwaith unigryw o'r safon uchaf.</p> <p>Rhaid i chi fod â siop Etsy gweithredol.</p> <p>Rhaid i'ch siop a'ch eitemau gydymffurfio â Chanllawiau Etsy a Chanllawiau Gwerthwyr Etsy.</p> <p>Rhaid i'ch siop gynnwys tudalen Amdanoch Chi.</p> <p>Rhaid i chi gyflwyno'ch cais gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein erbyn canol nos, nos Iau, 28 Ebrill 2016.</p> <p>Rhaid i chi fod ag eitemau wedi eu rhestru yn eich siop o'r dyddiad ymgeisio hyd 31 Hydref 2016.</p>

		<p>Rhaid i'ch siop fod yn weithredol o'r amser pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch cais tan ddiwedd ymgyrch Gwobrau Etsy ar 31 Hydref 2016.</p> <p>Rhaid i chi fod yn byw ac yn gweithio yn y DU neu Iwerddon. Rhaid i chi fod yn gallu cyflwyno 1-3 o nwyddau dethol ar gyfer sioe Enillwyr Gwobrau Etsy yn Tent London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain, a hynny erbyn 1 Medi 2016. Etsy fydd yn dewis y cynnyrch, yn curadu ac yn rheoli'r arddangosfa o'ch gwaith. Nid oes rhaid i'r gwerthwyr fod yn bresennol yn bersonol. Rhaid i'r gwerthwyr fod â stoc o'r nwyddau dethol wedi eu rhestru yn ei siop Etsy.</p> <p>Caiff pob ymgeisydd eu hystyried am y gwobrau Rhanbarthol yn awtomatig (gwneuthurwr gorau Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon).</p> <p>Mae rhagor o wybodaeth yma: https://blog.etsy.com/uk/2016/02/23/etsy-awards/</p>
Y Wobr Ranbarthol: Gogledd Iwerddon	1 enillydd:	<p>Rhaid i'r ymgeisydd fod yn byw yng Ngogledd Iwerddon. Mae eitemau'r enillwyr yn dangos dyluniad a chreffftwaith unigryw o'r safon uchaf.</p> <p>Rhaid i chi fod â siop Etsy gweithredol.</p> <p>Rhaid i'ch siop a'ch eitemau gydymffurfio â Chanllawiau Etsy a Chanllawiau Gwerthwyr Etsy.</p> <p>Rhaid i'ch siop gynnwys tudalen Amdanoch Chi.</p> <p>Rhaid i chi gyflwyno'ch cais gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein erbyn canol nos, nos Iau, 28 Ebrill 2016.</p> <p>Rhaid i chi fod ag eitemau wedi eu rhestru yn eich siop o'r dyddiad ymgeisio hyd 31 Hydref 2016.</p> <p>Rhaid i'ch siop fod yn weithredol o'r amser pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch cais tan ddiwedd ymgyrch Gwobrau Etsy ar 31 Hydref 2016.</p> <p>Rhaid i chi fod yn byw ac yn gweithio yn y DU neu Iwerddon. Rhaid i chi fod yn gallu cyflwyno 1-3 o nwyddau dethol ar gyfer sioe Enillwyr Gwobrau Etsy yn Tent London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain, a hynny erbyn 1 Medi 2016. Etsy fydd yn dewis y cynnyrch, yn curadu ac yn rheoli'r arddangosfa o'ch gwaith. Nid oes rhaid i'r gwerthwyr fod yn bresennol yn bersonol. Rhaid i'r gwerthwyr fod â stoc o'r nwyddau dethol wedi eu rhestru yn ei siop Etsy.</p> <p>Caiff pob ymgeisydd eu hystyried am y gwobrau Rhanbarthol yn awtomatig (gwneuthurwr gorau Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon).</p> <p>Mae rhagor o wybodaeth yma: https://blog.etsy.com/uk/2016/02/23/etsy-awards/</p>
Y Wobr Ranbarthol:	1 enillydd:	<p>Rhaid i'r ymgeisydd fod yn byw yng Ngweriniaeth Iwerddon.</p>

Gweriniaeth Iwerddon		<p>Mae eitemau'r enillwyr yn dangos dyluniad a chreffftwaith unigryw o'r safon uchaf.</p> <p>Rhaid i chi fod â siop Etsy gweithredol.</p> <p>Rhaid i'ch siop a'ch eitemau gydymffurfio â Chanllawiau Etsy a Chanllawiau Gwerthwyr Etsy.</p> <p>Rhaid i'ch siop gynnwys tudalen Amdanoch Chi.</p> <p>Rhaid i chi gyflwyno'ch cais gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein erbyn canol nos, nos Iau, 28 Ebrill 2016.</p> <p>Rhaid i chi fod ag eitemau wedi eu rhestru yn eich siop o'r dyddiad ymgeisio hyd 31 Hydref 2016.</p> <p>Rhaid i'ch siop fod yn weithredol o'r amser pan fyddwch chi'n cyflwyno'ch cais tan ddiwedd ymgyrch Gwobrau Etsy ar 31 Hydref 2016.</p> <p>Rhaid i chi fod yn byw ac yn gweithio yn y DU neu Iwerddon.</p> <p>Rhaid i chi fod yn gallu cyflwyno 1-3 o nwyddau dethol ar gyfer sioe Enillwyr Gwobrau Etsy yn Tent London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain, a hynny erbyn 1 Medi 2016. Etsy fydd yn dewis y cynnyrch, yn curadu ac yn rheoli'r arddangosfa o'ch gwaith. Nid oes rhaid i'r gwerthwyr fod yn bresennol yn bersonol. Rhaid i'r gwerthwyr fod â stoc o'r nwyddau dethol wedi eu rhestru yn ei siop Etsy.</p> <p>Caiff pob ymgeisydd eu hystyried am y gwobrau Rhanbarthol yn awtomatig (gwneuthurwr gorau Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon).</p> <p>Mae rhagor o wybodaeth yma: https://blog.etsy.com/uk/2016/02/23/etsy-awards/</p>
----------------------	--	--

Gwobr Dewis y Bobl

9. Dewisir deuddeg o bobl i gyrraedd rownd derfynol pob un o'r gwobrau uchod (ac eithrio'r Gwobrau Rhanbarthol). Bydd y rhai sy'n cyrraedd y rownd derfynol yn ymddangos ar wefan y Gystadleuaeth www.etsydesignawards.com/uk ar 23 Mai 2016 neu cyn hynny. Caiff y cyhoedd bleidleisio dros eu hoff un trwy fynd i wefan y Gystadleuaeth a defnyddio'r mecanwaith Facebook. Caniateir hyd at un bleidlais y person, yr wythnos (yn seiliedig ar eu cyfeiriad IP). Ni chewch wobrwyo na rhoi tâl anogaeth i neb sy'n pleidleisio drosoch - rhaid i'r bleidlais fod yn un rhydd a theg. Caniateir i'r ymgeiswyr hyrwyddo'u cais trwy'r cyfryngau cymdeithasol, ond ni chânt ddefnyddio system negesu "Convo" Etsy i wneud hynny. Os bydd yr hyrwyddwr yn amau neu'n sylwi ar unrhyw weithgarwch sy'n amheus neu'n groes i'r rheolau mewn perthynas ag unrhyw gynnig, boed hynny gennych chi neu gan drydydd barti, gellir eich anghymwyo. Y person sy'n denu'r nifer fwyaf o bleidleisiau fydd yn ennill gwobr Dewis y Bobl. Mae'n bosibl y byddant wedi ennill Gwobr arall hefyd, ond nid o reidwydd.

Rhaid i'r ymgeiswyr beidio â phrynu pleidleisiau. Mae'r Hyrwyddwr yn cadw'r hawl i ofyn am ddogfennaeth, gan gynnwys datganiad statudol wedi ei lofodi, gan ymgeisydd i gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r amodau a'r telerau hyn. Oa na fyddwch chi'n darparu'r ddogfennaeth ar gais, gellir eich anghymwyo ar ddisgresiwn yr Hyrwyddwr.

Hysbysu'r Enillydd

10. Hysbysir yr enillwyr trwy e-bost, a chyhoeddir eu henwau ar-lein yn www.etsydesignawards.com/uk ar 20 Mehefin 2016 neu cyn hynny.

Y Gwobrau

11. Bydd enillydd pob categori yn ennill y wobwr/gwobrau a nodir ar gyfer y categori o dan sylw isod:

GWOBR	GWOBR
Dawn Newydd Etsy (mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Ddylunio)	<p>Bydd enillydd y wobwr Aur yn ennill:</p> <ul style="list-style-type: none">• £2500 mewn arian parod• Blwyddyn o aelodaeth am ddim i Glwb Busnes yr Ymddiriedolaeth Ddylunio: http://www.thedesigntrust.co.uk/business-club/ <p>Bydd enillwyr y gwobrau Aur, Arian ac Efydd yn ennill:</p> <ul style="list-style-type: none">• Y cyfle i arddangos nwyddau dethol gydag Etsy yn Tent London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain (am ddim): Etsy fydd yn rheoli ac yn talu costau arddangos y nwyddau. Yr enillwyr fydd yn gyfrifol am y costau a'r logisteg o gludo'r nwyddau i'r sioe. (Etsy fydd yn talu costau dychwelyd y nwyddau).• Rhaglen cymorth busnes ar sail 3 gweminar gan Yr Ymddiriedolaeth Ddylunio.• Sylw yn ymgyrch Cysylltiadau Cyhoeddus Gwobrau Etsy y DU ac Iwerddon
Seren Adwerthu (mewn partneriaeth â John Lewis)	<ul style="list-style-type: none">• Bydd enillydd y wobwr Aur yn ennill: £2500 mewn arian parod• Archeb brynu gan John Lewis i werthu yn eu prif siop yn Oxford Street* <p>* Ni ellir gwarantu archeb brynu ar gyfer enillydd gwobr y Seren Adwerthu. Rhoddir enillydd gwobr Aur y Seren Adwerthu mewn cysylltiad â'r prynwr perthnasol yn John Lewis, a chaiff gyngor a mentora gan y pennaeth Prynu, gyda'r bwriad o weithio tuag at ddod â'r cynnyrch i'r farchnad yn John Lewis ar ffurf archeb brynu.</p> <p>Bydd enillwyr y gwobrau Aur, Arian ac Efydd yn ennill:</p> <ul style="list-style-type: none">• Y cyfle i arddangos nwyddau dethol gydag Etsy yn Tent London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain (am ddim): Etsy fydd yn rheoli ac yn talu costau arddangos y nwyddau. Yr enillwyr fydd yn gyfrifol am y costau a'r logisteg o gludo'r nwyddau i'r sioe. (Etsy fydd yn talu costau dychwelyd y nwyddau).• Rhaglen cymorth busnes ar sail 3 gweminar gan Yr Ymddiriedolaeth Ddylunio.• Sylw yn ymgyrch Cysylltiadau Cyhoeddus Gwobrau Etsy y DU ac Iwerddon
Y Cartref a Byw Ffasiwn a Chyfwisgoedd Plantos a Babanod	<p>Bydd enillydd y wobwr Aur yn ennill:</p> <ul style="list-style-type: none">• £2500 mewn arian parod

	<p>Bydd enillwyr y gwobrau Aur, Arian ac Efydd yn ennill:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y cyfle i arddangos nwyddau dethol gydag Etsy yn Tent London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain (am ddim): Etsy fydd yn rheoli ac yn talu costau arddangos y nwyddau. Yr enillwyr fydd yn gyfrifol am y costau a'r logisteg o gludo'r nwyddau i'r sioe. (Etsy fydd yn talu costau dychwelyd y nwyddau). • Rhaglen cymorth busnes ar sail 3 gweminar gan Yr Ymddiriedolaeth Ddylunio. • Sylw yn ymgyrch Cysylltiadau Cyhoeddus Gwobrau Etsy y DU ac Iwerddon
Y Gwobrau Rhanbarthol	<p>Bydd enillydd pob un o'r gwobrau rhanbarthol yn ennill:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y cyfle i arddangos nwyddau dethol gydag Etsy yn Tent London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain (am ddim): Etsy fydd yn rheoli ac yn talu costau arddangos y nwyddau. Yr enillwyr fydd yn gyfrifol am y costau a'r logisteg o gludo'r nwyddau i'r sioe. (Etsy fydd yn talu costau dychwelyd y nwyddau). • Rhaglen cymorth busnes ar sail 3 gweminar gan Yr Ymddiriedolaeth Ddylunio. • Sylw yn ymgyrch Cysylltiadau Cyhoeddus Gwobrau Etsy y DU ac Iwerddon
Dewis y Bobl	<ul style="list-style-type: none"> • £10,000 mewn arian parod • Y cyfle i arddangos nwyddau dethol gydag Etsy yn Tent London yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain (am ddim): Etsy fydd yn rheoli ac yn talu costau arddangos y nwyddau. Yr enillwyr fydd yn gyfrifol am y costau a'r logisteg o gludo'r nwyddau i'r sioe. (Etsy fydd yn talu costau dychwelyd y nwyddau). • Rhaglen cymorth busnes ar sail 3 gweminar gan Yr Ymddiriedolaeth Ddylunio. • Sylw yn ymgyrch Cysylltiadau Cyhoeddus Gwobrau Etsy y DU ac Iwerddon

12. Mae'r Hyrwyddwr yn cadw'r hawl i amnewid y gwobrau (neu unrhyw ran ohonynt) am wobr neu wobrau o werth ariannol cyfatebol neu uwch os oes angen gwneud hynny am resymau sydd y tu hwnt i'w reolaeth. Nid oes dewis ariannol yn lle'r gwobrau (nac unrhyw ran ohonynt) ac oni bai y cytunir yn ysgrifenedig fel arall, ni ellir ad-dalu na throsglwyddo'r gwobrau i neb arall. Amod o dderbyn y wobr yw bod rhaid i'r enillydd gydymffurfio â holl amodau defnydd y wobr, a gofynion cyflenwr y wobr. Rhaid i bob gwobr gael ei derbyn fel y'i disgrifir, ac ni fydd unrhyw iawndal yn daladwy os nad yw'r enillydd yn gallu defnyddio'r wobr a ddisgrifir.
13. Os na all yr Hyrwyddwr gysylltu ag enillydd cyn pen 14 diwrnod ar ôl ei (d)dethol, os caiff yr enillydd ei (h)anghymwyso o'r Gystadleuaeth, neu os nad yw'n gallu cyflawni unrhyw elfen o'r wobr, bydd yr enillydd hwnnw'n fforffedu'r wobr yn llwyr, a chaiff ei dyfarnu'n hytrach i'r gorau o'r gweddill yn y

- Gystadleuaeth. Ni fydd yr Hyrwyddwr yn atebol am enillydd na ellir cysylltu â nhw ac sy'n fforffedu'r wobwr o'r herwydd, ac ni fydd yn mynd i unrhyw ohebiaeth yn hynny o beth.
14. Os na fydd enillydd yn cymryd elfen o'r wobwr ar yr adeg y mae'r Hyrwyddwr yn ei bennu am unrhyw reswm yn y byd, yna bydd yr enillydd yn fforffedu'r rhan yna o'r wobwr.
15. Mae'r Hyrwyddwr yn cadw'r hawl i ofyn i enillwyr lofnodi gweithred rhyddhau fel enillydd neu unrhyw ffurflenni neu gytundebau perthnasol eraill y gwêl yr Hyrwyddwr yn angenrheidiol, er mwyn darparu tystiolaeth o hunaniaeth, tystiolaeth o oedran, tystiolaeth ei f/bod yn byw yn y cyfeiriad a bennwyd ar gyfer cyflwyno'r wobwr a/neu dystiolaeth o ddilysrwydd y cais er mwyn hawlio'r wobwr. Yr hyrwyddwr fydd yn pennu'r math o dystiolaeth o hunaniaeth, preswylfa, oedran neu ddilysrwydd y cais sy'n addas at ddibenion dilysu yn ôl ei ddisgresiwn. Os na all yr enillydd ddarparu tystiolaeth briodol, bydd yr enillydd yn fforffedu'r wobwr yn llwyr ac ni chynigir unrhyw beth arall yn gyfnewid am hynny.
16. Anfonir gwobrau arian parod ar ffurf siec yn daladwy i'r enillydd fel y mae ei (h)enw'n ymddangos ar y ffurflen gais, a hynny cyn pen 8 wythnos ar ôl hysbysu'r enillydd o dan sylw.
17. Ni ellir trosglwyddo na chyfnewid y gwobrau a, heblaw yn achos y gwobrau arian parod, ni ellir eu cymryd fel arian parod. Anfonir y gwobrau i'r cyfeiriad y mae'r enillydd yn ei bennu fel y'i nodir yn y cais gwreiddiol.

Deunyddiau - Gwarant a Defnydd

18. Trwy gyflwyno'ch cais, rydych yn gwarantu ac yn ymgymryd:
- ac eithrio'r hawliau eiddo deallusol hynny sy'n eiddo i, neu o dan drwydded i'r Hyrwyddwr:
 - (i) bod eich cais chi, a'r holl ddeunyddiau a gyflwynir neu sydd ar gael yn eich Siop Etsy ("y Deunyddiau") yn waith gwreiddiol gennych chi;
 - (ii) nad yw'r Deunyddiau'n mynd yn groes i unrhyw hawliau eiddo deallusol trydydd parti i unrhyw drydydd parti; a
 - (iii) taw chi yw perchennog cyfreithiol a buddiannol yr holl hawliau deallusol yn y Deunyddiau (ac eithrio'r holl ddelweddau, deunyddiau ffilm, cerddoriaeth a thestun a gyflwynir);
 - eich bod wedi cael unrhyw hawliau a chaniatâd ysgrifenedig perthnasol gan unigolion sy'n ymddangos yn y Deunyddiau;
 - eich bod, trwy hyn, yn ildio ac yn penderfynu peidio â mynnu (ac yn gwarantu bod yr holl unigolion sy'n ymddangos wedi ildio ac wedi cytuno peidio â mynnu) unrhyw hawliau egwyddorol (neu hawliau tebyg neu gyfatebol yn unrhyw le yn y byd, gan gynnwys hawliau delweddau) yn y Deunyddiau ac mewn perthynas â nhw;
 - nad yw'r Deunyddiau'n cynnwys unrhyw eitemau (gan gynnwys, heb gyfyngiad, unrhyw anifeiliaid) nad ydynt yn eiddo i chi;
 - nad yw'r Deunyddiau'n mynd yn groes i gyfraith Lloegr neu'r gyfraith yn y wlad lle'r ydych chi'n byw fel rheol, ac nad ydynt, hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred, yn mynd yn groes i gyfraith unrhyw wlad arall;
 - bod y Deunyddiau'n cydymffurfio â Thelerau Defnydd Etsy sydd ar gael yma: <https://www.etsy.com/uk/legal/?ref=fttr>
 - nad yw'r deunyddiau'n cynnwys unrhyw ddeunydd gwahaniaethol, masweddus neu ddifriol, nad yw'n cynnwys (boed ar ffurf delwedd, ystum, datganiad neu ddeunydd arall o unrhyw fath) unrhyw drais, creulondeb i anifeiliaid, arfau, eiconograffi crefyddol neu unrhyw beth y gellid ei ystyried yn dramgwyddus, yn wrth-gymdeithasol, yn llidus neu'n annymunol fel arall, ac nad yw'n anghyfreithlon fel arall o dan gyfraith Lloegr, neu'r gyfraith yn y wlad lle'r ydych chi'n byw fel rheol.
 - eich bod yn cytuno y gall yr Hyrwyddwr a'i drwyddedeion ddefnyddio'r Deunyddiau yn fasnachol mewn cysylltiad â'r Gystadleuaeth, neu i hyrwyddo eich siop Etsy neu i hyrwyddo Etsy yn gyffredinol, mewn unrhyw fformat a thrwy unrhyw sianel, heb wneud unrhyw daliad i chi.
 - eich bod yn cytuno y gall yr Hyrwyddwr, yn ôl ei ddisgresiwn ei hun a neb arall, ddewis peidio â chyhoeddi, defnyddio na manteisio ar y Deunyddiau nac unrhyw ran ohonynt mewn unrhyw ffordd, ac os yw'n dewis cyhoeddi, defnyddio neu fanteisio ar y Deunyddiau

- neu unrhyw ran ohonynt yn unol â'r Amodau a'r Telerau hyn, y gall yr Hyrwyddwr, yn ôl ei ddisgresiwn ei hun a neb arall, beidio â chyhoeddi, defnyddio neu fanteisio ar y Deunyddiau unrhyw bryd, a gall olygu unrhyw ddeunydd sy'n mynd yn groes i'r telerau hyn yn ei farn ef.
19. Mae'r Hyrwyddwr yn cadw'r hawl i drosglwyddo unrhyw gais sy'n achosi pryder iddo (gan gynnwys unrhyw fanylion personol cysylltiedig) i'r awdurdodau perthnasol, yn ôl ei ddisgresiwn ei hun a neb arall, a/neu ddatgelu gwybodaeth o'r fath yn ôl y gyfraith lle bo angen.
 20. Rydych yn cytuno i indemnio'r Hyrwyddwr mewn perthynas â hawliadau trydydd parti sy'n codi n'r sgil, neu mewn perthynas ag unrhyw dor-amod gennych chi yn y gwarantau a'r ymgymeriadau a bennir yn yr Amodau a'r Telerau hyn (ac yn benodol y gwarantau a'r ymgymeriadau a bennir yng nghymal 18 o'r Telerau ac Amodau hyn).
 21. Gellir mynnu bod yr enillydd yn llofnodi datganiad statudol am wreiddioldeb y Deunyddiau a/neu'r hawliau i ddefnyddio'r holl Eiddo Deallusol yn y Deunyddiau.

Atebolrwydd yr Hyrwyddwr

22. Nid oes dim yn yr Amodau a'r Telerau hyn yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar atebolrwydd yr Hyrwyddwr (nac unrhyw berson neu sefydliad arall) mewn perthynas â (i) twyll, neu (ii) marwolaeth neu anaf personol trwy esgeulustra, neu (iii) unrhyw atebolrwydd arall i'r fath raddau na ellir eithrio neu gyfyngu ar atebolrwydd o'r fath trwy'r gyfraith berthnasol.
23. Ac eithrio fel a nodir yng nghymal 22 uchod, mae'r Hyrwyddwr a'i gwmnïau ac asiantau cysylltiedig yn hepgor cyfrifoldeb a'r holl atebolrwydd sy'n deillio o:
 - unrhyw ohriad neu ddiddymiad o'r Gystadleuaeth, ac
 - unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth (gan gynnwys, yn ddigyfngiad, gwobrau nad ydynt yn cyrraedd y person y'u bwriedir ar eu cyfer), neu ddefnydd o'r wobr, ac
 - unrhyw weithred neu ddiffyg gweithredu gan unrhyw gyflenwr trydydd parti,
 - unrhyw fethiant ar rwydwaith, cyfrifiadur, caledwedd neu feddalwedd o unrhyw fath a all gyfyngu ar, neu achosi oedi wrth anfon neu dderbyn eich cais;
 - problemau neu ddiffygion technegol ar unrhyw rwydwaith neu linellau ffôn, systemau cyfrifiadur ar-lein, prif gyfrifiaduron, neu ddarparwyr, offer cyfrifiadurol, meddalwedd, problemau technegol ar y ffôn neu gydag unrhyw rwydwaith ffôn, neu unrhyw anffawd, damwain, anaf, colled (sy'n cynnwys ond nad yn gyfyngedig i sgil-golled) neu hawliad a allai godi wrth gyflawni unrhyw daith a enillir, neu sy'n gysylltiedig â'r cais; wrth gymryd rhan mewn unrhyw wobr; o ganlyniad i bost, e-bost, SMS neu alwad ffôn sy'n hwyr, ar goll neu'n cael ei gymgyfeirio; oherwydd darllediad unrhyw raglen sy'n ymwneud â'r gystadleuaeth neu gyhoeddiad unrhyw ddeunydd, gan gynnwys unrhyw ddatganiadau a wneir gan unrhyw gyflwynydd neu staff, a hynny o ganlyniad i bost, e-bost, SMS neu alwad ffôn sy'n hwyr, yn mynd ar goll neu'n cael ei gamgyfeirio; oherwydd darllediad unrhyw raglen sy'n ymwneud â'r gystadleuaeth neu gyhoeddiad unrhyw ddeunydd, gan gynnwys unrhyw ddatganiadau a wneir gan unrhyw gyflwynydd, aelod o staff, newyddiadurwr, ymgeiswyr eraill neu unrhyw berson arall; unrhyw anaf neu ddifrod i feddalwedd cyfrifiadur neu i ffôn unrhyw berson arall; neu unrhyw gyfuniad o'r pethau hyn, sy'n gysylltiedig â, neu sy'n deillio o, gymryd rhan neu anfon neu dderbyn unrhyw gysylltiadau neu unrhyw ddeunyddiau yn y gystadleuaeth hon;
 - ceisiadau hwyr, coll neu a gamgyfeirir;
 - gwobrau sy'n cael eu difrodi neu sy'n mynd ar goll wrth eu cludo;sydd y tu hwnt i reolaeth resymol yr Hyrwyddwr.

Cyffredinol

24. Mae'r enillwyr yn cytuno i gymryd rhan ac i gydweithredu yn ôl yr angen mewn gweithgareddau golygyddol sy'n ymwneud â'r Gystadleuaeth, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i gael cyfweiliadau a thynnu lluniau, ac maent yn cytuno y gall yr Hyrwyddwr a'i drwyddedeion ddefnyddio eu henwau a'u delweddau at ddibenion hysbysebu a chyhoeddusrwydd heb dâl ychwanegol.

25. Bydd gofyn i'r enillwyr drafod eu stori â'r Hyrwyddwr, a chymryd rhan mewn gweithgarwch hyrwyddo, gan gynnwys cyhoeddi eu stori, a chymryd rhan mewn sesiynau tynnu llun â rhybudd rhesymol yn ystod y cyfnod rhwng 10 Mehefin a 31 Hydref 2016.
26. Mae'r Hyrwyddwr yn cadw'r hawl i ddiwygio'r Amodau a'r Telerau hyn ar unrhyw adeg.
27. Os oes gan yr Hyrwyddwr reswm i amau bod unrhyw ymgeisydd neu drydydd parti yn euog o dwyll, dichell neu ymddygiad di-chwarae-teg arall o unrhyw fath (gan gynnwys, yn ddigwyfyngiad, ystrywio'r Gystadleuaeth, y dewis o enillydd/wyr y wobr/gwobrau neu unrhyw gais) mae'r Hyrwyddwr yn cadw'r hawl (yn ôl ei ddisgresiwn ei hun a neb arall) i anghymwysu unrhyw ymgeisydd, ymgais neu berson y mae'n credu'n rhesymol eu bod yn gyfrifol am, neu'n gysylltiedig â, gweithgarwch o'r fath. Penderfyniad y beirniaid mewn perthynas ag unrhyw agwedd ar y gystadleuaeth fydd yn derfynol a bydd yn rhwymo pob person sy'n ymgeisio. Nid yw hap a damwain yn chwarae unrhyw ran wrth bennu unrhyw enillydd. Ni fydd yr Hyrwyddwr yn mynd i unrhyw ohebiaeth.
28. Bydd manylion enwau a siroedd enillwyr y gwobrau ar gael am fis ar ôl dyddiad cau'r Gystadleuaeth trwy ysgrifennu at yr Hyrwyddwr yn y cyfeiriad a bennir uchod, a chan ddyfynnu enw a dyddiad cau'r Gystadleuaeth.
29. Dylid nodi nad yw'r Gystadleuaeth hon yn cael ei noddi, ei hardystio na'i gweinyddu gan, ac nid yw'n gysylltiedig â Facebook mewn unrhyw ffordd. Trwy ymgeisio, rydych yn cydnabod nad oes gan Facebook unrhyw gyfrifoldeb dros y Gystadleuaeth hon, ac i'r raddfa eithaf y mae'r gyfraith yn ei chaniatáu, rydych yn rhyddhau Facebook o unrhyw atebolrwydd bynnag mewn perthynas â'r Gystadleuaeth. Rydych chi'n deall bod y wybodaeth a ddarparwch yn cael ei darparu ar gyfer yr Hyrwyddwr (a'i gysylltiadau, cymdeithion ac asiantau lle bo hynny'n berthnasol) ac nid ar gyfer Facebook.
30. Bydd yr Hyrwyddwr yn defnyddio manylion personol pob enillydd, a phob ymgeisydd, at ddibenion gweinyddu'r gystadleuaeth hon. Gweler ein Polisi Preifatrwydd yn <https://www.etsy.com/ie/legal/privacy/?ref=ifr> am fanylion pellach. Dylid nodi ei bod hi'n bosibl y gellid prosesu eich data y tu hwnt i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, a'ch bod yn cytuno i hyn trwy gyflwyno eich Cais.
31. Caiff y Gystadleuaeth yma, ac unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio ohoni neu sy'n codi mewn perthynas â hi, ei llywodraethu gan, a'i dehongli yn unol â chyfraith Lloegr. Rydych yn cytuno yn ddi-âl-w-nôl taw llysoedd Cymru a Lloegr fydd â'r awdurdodaeth anghynhwysol i ddatrys unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n codi o'r Gystadleuaeth hon neu mewn perthynas â hi.